

## Baclofen i gynnal triniaeth dibyniaeth ar alcohol

### Gwasanaeth Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau Gwent

Mae Baclofen yn feddyginiaeth sy'n gweithio ar system GABA\* yn yr ymennydd (rhan o'r system 'ymdawelu' yn yr ymennydd). Mae'n asiant ymlacio cyhyrau a gwrthsbasmodig a ddefnyddir i drin symptomau cyhyrau a achosir gan gyflyrau penodol fel Sglerosis Ymledol ac anaf/clefyd cord y cefn.

Mae'n 'hen' gyffur sydd wedi bod ar y farchnad ers tua 40 mlynedd, felly mae gennym ddealltwriaeth dda o'i sgil-ffeithiau andwyol a'r profiad o'i ddefnyddio. Er mai dim ond mewn Sglerosis Ymledol ac anaf/clefyd cord y cefn y mae wedi'i drwyddedu, fe'i defnyddir hefyd ar gyfer nifer yr arwyddion eraill heb awdurdod e.e.: igian, niwrogia trigeminal, a sbastigedd yr ymennydd.

Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu y gall baclofen helpu pobl i aros i ymatal rhag alcohol.

(\*Asid Gamma Amino Butyric)

### **Sut mae Baclofen yn helpu gyda dibyniaeth ar alcohol?**

Mae alcohol yn cynyddu cyfraddau tanio 'llwybrau gwobrwyo' yn yr ymennydd gan arwain at 'ffeithiau atgyfnerthu cadarnhaol' fel ewfforia. Mae actifadu derbynyddion GABA drwy baclofen yn lleihau'r gyfradd danio yn y llwybrau gwobrwyo ac yn lleihau ffeithiau atgyfnerthu alcohol. Mae GABA hefyd yn ymwneud ag ardaloedd yr ymennydd sy'n gyfrifol am emosiynau fel y gall defnyddio baclofen gael gwared ar rai o elfennau emosiynol defnyddio alcohol.

Felly, bwriedir i driniaeth gyda baclofen wneud i'r obsesiwn gydag alcohol ddiflannu o'r meddwl; mewn geiriau eraill, y bwriad yw cael gwared ar yr ysfa. Y nod yn y pen draw yw teimlo'n rhydd o'r awydd i yfed alcohol.

Noder nad yw baclofen wedi'i drwyddedu ar gyfer rhagnodi at y diben hwn ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'n ddilys gwneud hynny gan fod data gwyddonol yn cyfiawnhau'r defnydd therapiwtig hwn.

## **Gwybodaeth bwysig am baclofen**

- Gall Baclofen amharu ar eich meddwl neu'ch adweithiau. Byddwch yn ofalus os byddwch yn gyrru neu'n gwneud unrhyw beth sy'n gofyn i chi fod yn effro. Fe'ch cynghorir i beidio â gyrru na gweithredu peiriannau trwm yng nghanau cynnar y driniaeth.
- Gall yfed alcohol gynyddu sgil-ffeithiau penodol baclofen.
- Mewn rhai sefyllfaoedd, gall beryglu eich diogelwch corfforol i fod mewn cyflwr o naws cyhyrau is.
- Efallai y bydd gennych symptomau tynnu allan fel trawiadau neu rithwelediadau, os byddwch yn rhoi'r gorau i ddefnyddio baclofen yn sydyn ar ôl ei ddefnyddio dros gyfnod hir o amser.
- Peidiwch â rhoi'r gorau i ddefnyddio baclofen heb siarad â'ch meddyg yn gyntaf.
- Efallai y bydd angen i chi leihau'r dos yn raddol cyn i chi stopio'r feddyginiaeth yn llwyr.

## **Cyn cymryd baclofen**

Ni ddylech ddefnyddio baclofen os oes gennych alergedd iddo. I wneud yn siŵr eich bod yn gallu cymryd baclofen yn ddiogel, dywedwch wrth eich meddyg os oes gennych unrhyw un o'r cyflyrau eraill hyn:

- clefyd yr arennau
- epilepsi neu anhwylder ffitiau arall
- hanes o strôc neu glotiau gwaed

Gall defnyddio baclofen gynyddu eich risg o ddatblygu coden ofari. Siaradwch â'ch meddyg am eich risg benodol.

Nid yw'n hysbys a fydd baclofen yn niweidio baban heb ei eni. Dywedwch wrth eich meddyg os ydych yn feichiog neu'n bwriadu beichiogi wrth ddefnyddio'r feddyginiaeth hon. Nid yw'n hysbys a yw baclofen yn mynd i laeth y fron neu a allai niweidio baban nyrsio. Ni ddylech fwydo ar y fron tra byddwch yn defnyddio baclofen.

Peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth hon i unrhyw un nad yw'n cael ei rhagnodi. Gall oedolion hŷn fod yn fwy sensitif i effeithiau'r feddyginiaeth hon.

## **Dosio a gweinyddu**

Nid yw'r dos sydd ei angen i gynnal ymatal rhag alcohol yn safonol a bydd yn cael ei bennu ar sail adweithiau a theimladau claf wrth roi'r feddyginiaeth a'r cynnydd cynyddol mewn dos. Ni ellir rhagweld y dos effeithiol a'r sgil-ffeithiau andwyol cyn dechrau triniaeth.

Mae cynnydd graddol yn y dos o'r feddyginiaeth yn hanfodol er mwyn lleddfu'r sgil-ffeithiau andwyol sy'n digwydd wrth gynyddu'r dos yn rhy gyflym. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd 6 i 12 wythnos i gyrraedd y dos gofynnol. Pan gyrhaeddir y dos a ddymunir a'i fod yn cael ei oddef yn dda, argymhellir aros ar y dos hwnnw am 2 i 3 mis (weithiau llai ac weithiau mwy) ac yna ceisio lleihau'r dos i ddod o hyd i'r dos effeithiol isaf.

## **Sgil-ffeithiau**

Yr sgil-ffeithiau mwyaf cyffredin yw:

- Cysgu
- Blinder
- Pendro
- Cur pen
- Aflonyddwch gastroberfeddol e.e.: cyfog, chwydu
- Wrineiddio'n fwy nag arfer

Sgil-ffeithiau llai cyffredin yw:

- Ffitiau
- Dryswch, rhithwelediadau
- Curiad calon afreolaidd
- Cryndod
- Pinnau bach poenus mewn breichiau a choesau (paraesthesia)

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o sgil-ffeithiau a ddisgrifir ar gyfer y feddyginiaeth hon. Ffoniwch y meddyg neu rhwch wybod i'ch nyrs os ydych yn profi unrhyw symptomau anarferol. Bydd rhai o'r sgil-ffeithiau'n diflannu wrth i chi barhau â thriniaeth.

## **Beth sy'n digwydd os byddaf yn colli dos?**

Cymerwch y dos a gollwyd cyn gynted ag y cofiwch. Anwybyddwch y dos a gollwyd os yw bron yn amser ar gyfer eich dos nesaf a drefnwyd. Peidiwch â chymryd meddyginiaeth ychwanegol i wneud iawn am y dos a gollwyd.

## **Beth sy'n digwydd os byddaf yn gorddosio?**

### **Ceisiwch sylw meddygol brys.**

Gall symptomau gorddos gynnwys gwendid yn y cyhyrau, chwydu, bod yn gysglyd, kannwyll llygaid wedi'u gwanhau neu'n binbwynt, anadlu gwan neu bas, llewygu, neu goma.

## **Caniatâd i Gael Triniaeth gyda Baclofen**

- Rwy'n ardystio drwy hyn fy mod wedi derbyn gan Dr..... wybodaeth fanwl am y driniaeth gyda baclofen mewn dosau uchel (HD) i drin fy mwriadau gydag alcohol.
- Gwn nad yw'r driniaeth hon wedi cael awdurdod ffurfiol gan yr awdurdodau cymwys. Yr wyf am gymryd y driniaeth hon er gwaethaf y sgil-ffeithiau posibl oherwydd hyd yma nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw ateb effeithiol i'm problemau gydag alcohol.
- Deallaf mai'r prif sgil-ffeithiau yw bod yn gysglyd, blinder, cur pen, pendro ac aflonyddwch cysgu. Mewn achosion prin gall deliriwm ddigwydd. Mae Dr..... wedi fy hysbysu bod y sefyllfa hon o ddryswch meddyliol yn gofyn am atal y cynnydd mewn dosau ac efallai atal triniaeth.
- Rwyf wedi rhoi gwybod yn glir i Dr..... o'm holl hanes meddygol fel y gallai benderfynu a ddylid cymhwyso rheolau gofal penodol i'm presgripsiwn baclofen.
- Cefais a darllenais y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys gwybodaeth am y feddyginiaeth. Rwy'n ymwybodol y dylwn roi gwybod i'r meddyg am unrhyw symptomau difrifol/anarferol.
- Oherwydd symptomau tynnu'n ôl posibl pan fydd baclofen yn dod i ben, gwn na ddylai rhywun roi'r gorau i gymryd baclofen yn sydyn, ond lleihau'n raddol fel y cyfarwyddwyd gan y meddyg.

- Rwy'n ymrwymo i beidio â gyrru fy nghar na defnyddio peiriannau peryglus am o leiaf adeg y cynnydd mewn dognau ac i ailddechrau gweithgareddau o'r fath mewn ymgynghoriad â'r meddyg yn unig.
- Rwyf wedi cael amser i wneud fy mhenderfyniad i gael y driniaeth hon.

### **Darllenwyd a rhoddwyd caniatâd**

Enw'r claf: ..... (printiwch)

Llofnod y Claf: .....

Dyddiad:.....

Enw'r meddyg: ..... (printiwch)

Llofnod y meddyg: ..... Dyddiad:.....

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English".**